*NODIR: Wrth baratoi'r sylwadau hyn, nid rwyf wedi derbyn Atodiad 2 sy'n cynnwys yr asesiadau effaith.

**GWRTHWYNEBIAD I'R CYNNIG ARFAETHEDIG I GAU YSGOL NEBO AR 31 RHAGFYR 2026 A THROSGLWYDDO DISGYBLION I YSGOL LLANLLYFNI O 1 IONAWR 2027 YMLAEN.**

Hoffwn ddiolch i'r Adran Addysg am eu gwaith yn paratoi'r ddogfen a'r gefnogaeth mae Ysgol Nebo wedi derbyn dros y blynyddoedd.

Fel yr Aelod Lleol dymunaf gyflwyno fy sylwadau ar Adroddiad Cabinet Ysgol Nebo ac fy mod yn erbyn yr argymhelliad a ffefrir i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen. Nid yw'r achos dros gau yn bodloni *"rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig"* (adran 4.5-4.7) yn y Cod Trefniadaeth 011/2018. Nid yw'r adroddiad, fel y mae, yn profi bod pob opsiwn ymarferol arall wedi cael ei ystyried "yn gydwybodol", nac yn dangos asesiad effeithiau llawn a chyfoes.

Yn siomedig, nid yw'r Adran Addysg o blaid yr un opsiwn a ffafrir gan y Corff Llywodraethol - sef:

**"Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol,emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro -amrywiaeth."**

**Cywiriadau**

Yn 10.7 mae'r adroddiad yn nodi bod pennaeth strategol 0.2 a pennaeth llawn amser. Yn hytrach, y trefniant cywir ydi Pennaeth strategol 0.2, Pennaeth mewn gofal 0.8 ac athrawes 0.2.

Mae'r ddogfen yn nodi mai 1 dosbarth sydd gan Ysgol Nebo. Mewn gwirionedd mae gan Ysgol Nebo 2 ddosbarth.

**Cydnabyddiaeth**

Rydym yn cydnabod fod yr ysgol ar hyn o bryd mewn sefyllfa fregus gyda niferoedd isel. Yn anffodus, mae hyn yn batrwm ehangach ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd y Sir. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod canran uchel o ddisgyblion sydd yn mynychu Ysgol Nebo yn ddisgyblion all-dalgylch. Mae angen deall y rhesymau dros hyn cyn penderfynu ar gau. Yn ogystal â hyn mae nifer disgyblion yr ysgol wedi cynyddu 50% ers y flwyddyn ddiwethaf.

**Rhagamcanion**

Nid oes eglurhad methodolegol clir ynghylch sut y cyfrifwyd y rhagolygon poblogaeth. Heb fodel demograffig tryloyw, nid yw'r casgliad *"bydd niferoedd yn parhau'n isel"* yn gadarn. Er enghraifft, dylid ystyried Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd (700 o dai cymdeithasol erbyn 2029), lle gallai pentref Nebo elwa'n uniongyrchol ac arwain at dwf niferoedd yr ysgol.

**Cyllid**

Er bod cau ysgol yn ymddangos fel arbediad i'r Cyngor, nid yw'r ddogfen yn cynnwys costau diswyddiadau, ailstrwythuro, pontio, nac gostyngiadau posibl mewn refeniw grantiau.

Mae'r cyfeiriad at gostau cynnal a chadw hefyd yn gamarweiniol, gan fod y gwaith yma yn *'angenrheidiol'* byddai'r gwaith yn digwydd beth bynnag y penderfyniad. Yn ogystal nid oes tystiolaeth ategol i gyfiawnhau'r ffigwr o £95,000. Oherwydd y rhesymau hyn dylid hepgor y ffigwr £95,000.

**Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg**

Byddai cau Ysgol Nebo yn cael effaith negyddol sylweddol ar y gymuned, gan fod perthynas clos iawn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned. Mae'r ysgol yn ased i'r Gymraeg a diwylliant lleol, bydd ei golli yn golygu colled barhaol i'r pentref.

**Addysg Gartref (EHE)**

Mae 269 o blant yn derbyn eu haddysg gartref yn y Sir - cynnydd o 134 ers Medi llynedd. Ffigwr pryderus iawn. Mae nifer o rieni wedi nodi na fyddai ysgol fwy yn addas i'w plant; mae tystiolaeth leol yn dangos bod rhai dysgwyr wedi ffynnu ar ôl symud i Nebo, diolch i ddosbarthiadau llai a gofal unigol - gwerth amhrisiadwy.

**Dosbarthiadau Bach**

Mae nifer o astudiaethau ym Mhrydain yn cefnogi manteision dosbarthiadau llai, yn enwedig i blant ieuengach a'r rhai o gefndiroedd difreintiedig. Mae profiad Ysgol Nebo yn ategu hyn drwy welliant mewn lles a chynnydd i rai dysgwyr.

**Dewisiadau Amgen heb eu Harchwilio**

Yn unol *â'r "rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig"* (Cod Trefniadaeth 011/2018), rhaid profi fod pob opsiwn wedi'i ystyried yn gydwybodol. Credwn nad yw hyn wedi digwydd yn ddigonol. Er bod opsiwn 8.8 yn cyfeirio at yr hyn a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethol, nid oedd bwriad gan y corff i gynnwys uned ADY. Yn hytrach, y bwriad yw cynnig ysgol a fyddai'n darparu cyfle i ddisgyblion bregus aros yn y prif lif ac o bosib osgoi cynnydd pellach mewn plant yn derbyn eu haddysg gartref.

Dymunwn fod opsiwn a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethwyr Ysgol Nebo yn cael ei ystyried yn llawn.

**"Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol,emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro -amrywiaeth."**

**Casgliad**

Mae cyfle i Gyngor Gwynedd weithredu'n arloesol drwy gefnogi Ysgol Nebo fel safle peilot ac enghreifftiol gan fanteisio ar yr opsiynau mae'r Corff Llywodraethwyr wedi cynnig. Byddai hyn yn dangos arweiniad cenedlaethol ar sut i gryfhau ysgolion gwledig, ac yn rhoi dewis cadarnhaol yn hytrach na chau ysgol werthfawr.

Gyda niferoedd o ddisgyblion yn dewis addysgu gartref yn cynyddu ar raddfa frawychus yn y Sir, mae angen archwilio pam fod rhai wedi dewis Ysgol Nebo cyn troi at addysgu gartref.

Felly, gofynnwn i'r Cabinet ohirio'r ymgynghoriad statudol ar gau, a chefnogi cynllun peilot i brofi model arloesol byddai'n cynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro -amrywiaeth.

Yn aml rydym yn gweld y Cyngor hwn yn arwain y ffordd yng Nghymru a thu hwnt. Dyma gyfle arall i Gyngor Gwynedd arwain ar sut i sicrhau dyfodol cynaliadwy i ysgolion gwledig, cefnogi'r Gymraeg, a denu teuluoedd yn ôl o addysg gartref.

Diolch

Cynghorydd Dafydd Davies

**Aelod Lleol**

**Ward Clynnog**